

## Y Digartref

**Darlleniad 1: Mathew 8: 18-20**

**Darlleniad 2: Luc 10: 25-37**

---

---

Ein Tad nefol a sanctaidd, diolchwn dy fod yn Dduw sy'n gwrando ac yn ateb gweddïau dy bobl. Cynorthwya ni wrth inni weddio inni anghofio ein hunain a'n cymhellion hunanol ac i ddod â'r rhai digartref ger dy fron mewn gweddi.

Teimlwn yn hyderus i droi atat yn enw Iesu Grist oherwydd dy fod yn Dduw graslon a thrugarog. Wrth feddwl am y digartref, cofiwn eiriau Iesu ei hun am 'Fab y dyn heb le i roi ei ben i lawr'. Diolch dy fod yn gallu uniaethu gyda dyn yn ei angen. Mae ein dinasoedd a'n trefi mawr yn llawn o bobl nad oes ganddynt le i roi eu pen i lawr. Maent yn cerdded y strydoedd heb unman arbennig i fynd nac unrhyw beth o werth i'w wneud, a hynny o ddydd i ddydd.

Gwyddom, O! Dad, nad ydym yn byw mewn byd delfrydol, a bod problemau a themtasiynau bywyd yn rhan fawr o'r rheswm pam y mae llawer yn ddigartref. Nifer wedi eu cael eu hunain yn y cyflwr hwn oherwydd torpriosas; pobl ifainc yn dianc o'u cartrefi ac yn mynd i'r dinasoedd, ac yn fuan yn dod yn rhan o fyddin y digartref. Mae llawer yn ddigartref, O! Dad, oherwydd eu bod yn gaeth i'r ddiod feddwol a chyffuriau eraill; eraill o blith y digartref yn troi at y ddiod feddwol a chyffuriau er mwyn cael cysur yn eu sefyllfa, am na wyddant at bwy i droi.

'O! gwared ni rhag in osgoi  
Y sawl ni wŷr at bwy i droi;  
Gwna ni'n Samariaid o un fryd,  
I helpu'r gwael yn hael o hyd.'

O! Dduw tragwyddol, mae sylwi ar y rhai digartref yn gorwedd ar y llawr mewn cyflwr truenus yn ein hatgoffa o ddameg y Samariad trugarog, y truan a adawyd ar lawr. Mae'r digartref fel y truan hwn

wedi eu brifo a'u harcholli ac mewn angen mawr am gymorth. Mor rhwydd, O! Arglwydd, yw pasio heibio a gwneud dim. Diolchwn, yn unigolion ac eglwysi sy'n gwasanaethu yn dy enw ac yn ymateb i'r angen fel y Samariad trugarog gynt trwy roi gwin ac olew ar eu doluriau:

‘Dysg i’w llygaid allu canfod  
Dan drueni dyn ei fri;  
Dysg i’w dwylaw estyn iddo  
Win ac olew Calfari.’

Gweddiwn dros y llywodraeth leol sydd i ofalu am gartrefu pobl eu hardal, ond sydd oherwydd cyni economaidd yn ei chael yn amhosibl i gyfarfod yr angen. Mae'r cyfrifoldeb yn syrthio ar gymdeithasau gwirfoddol fel Shelter i geisio cynorthwyo gyda'r broblem fawr hon. Gofynnwn iti fendithio'r mudiadau a'r eglwysi hynny sy'n estyn eu dwylo i gynorthwyo'r digartref trwy gynnig lloches, lluniaeth, dillad cynnes, cwmni, cynhesrwydd a chyfeillgarwch. Estyn iddynt dy law; dyro iddynt dy gymorth.

‘Dysg inni'r ffordd i weini'n llon,  
Er lleddfu angen byd o'r bron;  
Rho obaith gwir i'r gwan a'r prudd,  
Ac archwaeth ddwfn at faeth y ffydd.’

O! Arglwydd trugarog, nid yw'r rhan fwyaf ohonom yn deall yr hyn yw baich colli cartref a theulu; nid ydym yn rhoi digon o amser i feddwl a gweddio dros y rhai sydd wedi dioddef y profiad arswydus o weld eu bywyd yn torri'n deilchion.

O! Arglwydd ein Duw, er bod llawer ohonom yn byw mewn ardaloedd lle nad oes pobl ddigartref, paid â gadael i hynny fod yn esgus inni anghofio ein cyfrifoldeb tuag at y rhai sy'n fyr o'n breintiau ni. Crea'r awydd ynom i gefnogi'r mudiadau a'r eglwysi sy'n estyn cymorth i'r digartref yn ein dinasoedd a'n trefi; annog ni i anfon ein rhoddion ariannol ac unrhyw gyfraniadau eraill er mwyn eu cynorthwyo yn eu gwaith a gwneud hynny er clod a gogoniant i'th enw mawr di. Amen.

*Brian Wright*